

Gwybodaeth ar gyfer Gweithwyr Gofal Cymdeithasol Proffesiynol mewn perthynas â'r Gwasanaeth Eiriolaeth Proffesiynol Annibynnol.

Mae hwn yn wasanaeth statudol a gomisiynwyd gan yr Awdurdodau Lleol yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro fel gofyniad dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), a chaiff y rôl ei ddiffinio yn Rhan 10 y Cod Ymarfer (Eiriolaeth) sy'n nodi sut y mae'n **rhaid** bodloni'r gofynion.

Cynlluniwyd y gwasanaeth i ddarparu cymorth i unigolion penodol sy'n cael cyswllt gyda phrosesau allweddol y Gwasanaethau Cymdeithasol, sef **asesu, cynllunio gofal a chymorth, adolygiadau gofal a diogelu** yn benodol, y maent yn wynebu rhwystrau wrth gyfranogi'n llawn.

Caiff y prif rwystrau eu diffinio fel amhariad ar y gallu i **ddeall gwybodaeth berthnasol, cofio gwybodaeth, defnyddio neu bwysu a mesur gwybodaeth neu gyfleu eu safbwyntiau, eu dymuniadau a'u teimladau**. Yn ogystal, mae'r Cod yn cydnabod rhwystrau posibl eraill, megis unigolyn yn cael anawsterau wrth nodi ffynonellau gwybodaeth oherwydd anawsterau emosiynol neu gorfforol, rhwystrau ieithyddol, gwrthdaro rhwng buddiannau mewn teuluoedd, ac ati, a'r prif ofyniad yw y rhoddir sylw i unrhyw rwystrau sy'n atal rhywun rhag cyfranogi'n llawn a hyrwyddo llais a rheolaeth.

Mae'r cymorth eiriolaeth a ddarparir yn caniatáu i'r unigolyn **gyfranogi'n llawn** yn y prosesu hyn; gofyniad allweddol yn y Ddeddf. Cyflawnir hyn trwy ddarparu gwybodaeth sy'n ymwneud â'r prosesau, esbonio hawliau, cael dealltwriaeth well o'r dewisiadau a hwyluso dewisiadau personol gwybodus. Trwy gydol y gweithgarwch ymgysylltu, caiff yr unigolyn eu hwyluso i hunan-eirioli hyd eithaf eu gallu. Ar gyfer yr unigolion hynny nad ydynt yn gallu mynegi eu dewisiadau yn uniongyrchol, neu nad ydynt yn meddu ar alluedd mewn perthynas â gweithgarwch penderfynu penodol, bydd yr eiriolwr yn darparu cynrychiolaeth heb gyfarwyddyd ar sail yr hyn y bydd modd ei ganfod trwy gael trafodaeth gyda'r unigolyn a'u harsylwi, a chan y rhai sy'n adnabod yr unigolyn, ynghylch dewisiadau a ffyrdd o fyw yr unigolyn, neu'r mathau o ddewisiadau y maent wedi'u gwneud yn flaenorol efallai.

Efallai y bydd pobl eraill, teulu neu ffrindiau, (y cyfeirir atynt yn y Ddeddf fel **unigolyn priodol**) y bydd modd eu hystyried fel rhywun sy'n gallu cynorthwyo'r unigolyn i gyfranogi'n llawn. Fodd bynnag, mae'r Cod yn nodi rhai o'r anawsterau wrth ddefnyddio teulu a ffrindiau o ran; eu gwybodaeth gyfyngedig o brosesau, gwrthdaro posibl rhwng buddiannau, y ffaith nad yw'r unigolyn yn dymuno iddynt ddarparu cymorth neu'r ffaith eu bod yn cael eu cysylltu gydag ymholiad ynghylch cam-drin neu esgeulustod.



Pan na cheir unigolyn priodol sy'n addas i weithredu fel eiriolwr dros yr unigolyn sy'n profi rhwystrau wrth gyfranogi'n llawn, ac mae'r gweithiwr gofal cymdeithasol proffesiynol yn teimlo na allant gynorthwyo'r unigolyn i gyfranogi'n llawn, **rhaid iddynt fanteisio ar gymorth Eiriolwr Proffesiynol Annibynnol**. Mewn sefyllfaoedd eraill, dylent wastad ystyried manteision gwasanaeth Eiriolwr Proffesiynol Annibynnol.

Yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro, darparir y Gwasanaethau Eiriolwr Proffesiynol Annibynnol gan 3 CEPA (y Gwasanaeth Eiriolaeth Proffesiynol Annibynnol Tair Sir), sef trefniant cydweithio rhwng darparwyr eiriolaeth annibynnol lleol y mae ganddynt flynyddoedd lawer o brofiad ym maes eiriolaeth. Mae pedwar o'r pum darparwr wedi sicrhau Marc Perfformiad Ansawdd Eiriolaeth Annibynnol ac mae eu heiriolwyr wedi sicrhau neu'n cael hyfforddiant er mwyn sicrhau'r cymhwyster galwedigaethol cydnabyddedig mewn Eiriolaeth Annibynnol.

Os ydych chi'n teimlo y dylai rhywun fod yn cael eu hawl gyfreithiol i gymorth Eiriolaeth Proffesiynol Annibynnol, neu os nad ydych yn siŵr ynghylch eu cymhwysra, cysylltwch â'r gwasanaeth a byddwn yn trafod pob sefyllfa yn ôl ei haeddiant.

Gweler ein fideo gwybodaeth hefyd trwy droi at: <https://youtu.be/kDjc8MG3Lh0>

Rhadffôn: 0800 2061387 neu anfonwch e-bost at info@cipawales.org.uk